PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 159 | Rhif 42 | Hydref 15, 2026 | 50c.

Ceredigion – Sul Sbesial

Cynhelir Sul Sbesial Cyfundeb Ceredigion ar Sul olaf mis Medi bob blwyddyn. Eleni, Sul 27 Medi, 2026 oedd y dyddiad. Cynhaliwyd yr oedfaon yn neuadd hamdden, Gwersyll yr Urdd, Llangrannog ac fe ddaeth cynrychiolaeth dda ryfeddol i'r gwasanaethau o dan arweiniad Karine Davies, Is-gadeirydd Cyfundeb Ceredigion.



Yn y lluniau gwelir plant ysgolion Sul, Glynarthen, Pisgah, Talgarreg, Pencae Llannarth, Llwyncelyn, Tabernacl Pencader. Gwerthfawrogwyd hefyd bresenoldeb plant o Gapel y Wig, Neuaddlwyd a chapel Trewen Cwmcou.



Gweithgareddau'r bore

Thema'r Sul Sbesial eleni oedd 'Diolchgarwch'. Yn y bore cafwyd cyflwyniadau gan ddisgyblion ysgolion Sul Glynarthen; Llwyncelyn; Pisgah Talgarreg; Pencae Llannarth a Tabernacl Pencader. Rhian Evans, capel Glynarthen oedd yn cyfeilio yn y gwasanaeth borueol. Y Parchg Carys Ann oedd yng ngofal gwybodaeth weledol ar y sgrin a llywyddwyd ac arweiniwyd y defosiwn gan Angharad John, Pencae gydag Elin

parhad ar dudalen 2

Oedfa unedig y Tymbl a Chefneithin

'Survive together or perish alone.' Dyna oedd rhybudd Martin Luther King i ni gyd. Ac mae'n siŵr fod y geiriau yna yn fwy addas nag erioed y dyddiau hyn. Braf oedd gweld Cristnogion y Tymbl a Chefneithin yn cychwyn ar fenter newydd yn ddiweddar gan ddod at ei gilydd ar gyfer oedfa unedig.

Fe wnaeth pob capel ac eglwys ymateb yn bositif a gwelwyd Bethania, Bethel, Bethesda, Carmel ac eglwys Dewi Sant o'r Tymbl yn ogystal â'r Tabernacl, Cefneithin yn dod at ei gilydd yn Bethesda. Cafwyd cyfraniad gan bob eglwys a'r testun oedd 'Bethesda' ac Iesu yn iachau'r dyn claf wrth Lyn Bethesda yn Jerwsalem.

Yn dilyn yr oedfa aeth pawb draw i Bethesda Fach lle'r oedd gwragedd Bethesda wedi paratoi gwledd i bawb. Diolch i bawb am eu cydweithrediad arbennig ac roedd pawb o blaid gwneud y digwyddiad yn un blynyddol. Felly ymlaen yn awr i'r flwyddyn nesaf ac mae dwy eglwys wedi cynnig cynnal oedfa flwyddyn nesaf yn barod.

Guto Llywelyn





Sul Sbesial – parhad

Mair, Llwyncelyn yn arwain y plant yn y cydganu. Y siaradwr gwadd eleni oedd y Parchg Kevin Davies a thestun ei gyflwyniad oedd 'y disgyblion yn pysgota'. Roedd y plant wedi gwirioni cael gwisgo dillad pwrpasol rhag gwlychu yn y storm ac fe gafwyd neges bwrpasol yn llawn hwyl. Derbyniwyd cyfarwyddiadau am drefniadau gweddill y dydd a'r diolchiadau gan Karine Davies.



Miri a mawl y pnawn

Wedi toriad i ginio, aeth y plant i fwynhau holl weithgareddau'r gwersyll. Arhosodd y gynulleidfa yn y ganolfan hamdden ar gyfer gwasanaeth yng ngofal y Parchg Kevin Davies. Cafwyd gwledd weledol ganddo wrth iddo osod blodau a chyflwyno neges o'r ysgrythur, oedd yn bwrpasol ar gyfer gwasanaethau mis Hydref, y gwasanaethau diolchgarwch am y cynhaeaf. Neville Evans, capel Neuaddlwyd oedd yn cyfeilio a chyflwynwyd y diolchiadau gan y Parchg Gareth Ioan, Ysgrifennydd Cyfundeb Ceredigion. Gwerthfawrogwyd cymorth Keith Evans a'i frawd Alun Evans yn casglu arwydd o werthfawrogiad y gynulleidfa, trwy roddi eu gwerthfawrogiad caredig o'r gwasanaethau â'r trefniadau yn y casgliad. Er mwyn cofnodi'r diwrnod, tynnwyd amrywiol luniau gan Sue Davies, Coedybryn.

Roedd y cwbl wedi ei drefnu yn ofalus iawn gan bwyllgor y Sul Sbesial. Llongyfarchiadau mawr am lwyddiant ysgubol y dydd. Fe sicrhawyd yng ngwasanaeth y bore fod ysgolion Sul yr ardal yn cael y cyfle i gymryd rhan yn gyhoeddus mewn neuadd fawr, gyda thyrfa yn eu gwylio.

Carys Ann

Menter Chwildro

Aeth pum mis heibio ers sefydlu Menter Gymunedol Chwildro gan estyn allan i'r gymuned yn Chwilog a'r ardal ehangach. Y nod yw trefnu a chefnogi gweithgarwch cymunedol a cheisio cwrdd ag anghenion penodol o fewn ein cymuned. Mae hi wedi bod yn gyfnod prysur gydag amrywiaeth eang o ddigwyddiadau i wahanol grwpiau a'r gefnogaeth yn cynyddu wrth i fwy o bobl ddod i wybod am y fenter a'i gweithgareddau. Sefydlwyd patrwm o ddigwyddiadau misol, megis Ffrindiau Bach i blant ifanc a'u teuluoedd, Cylch Cwmni ar gyfer y rhai sy'n dymuno dod at ei gilydd am baned a sgwrs, a Sesiwn Sgwrsio i bobl sy'n dysgu Cymraeg. Gan nad yw pawb yn gallu mynychu yn ystod y dydd penderfynwyd cynnig Sesiwn Sgwrsio gyda'r nos hefyd. Hyd yma mae deg o bobl wedi mynychu'r sesiynau i ymarfer siarad Cymraeg ac mae saith o bobl yn gwirfoddoli i siarad gyda nhw.

Ffrindiau newydd

Un o'r pethau sydd wedi dod i'r amlwg yw bod y gweithgareddau'n cynnig cyfle i ddod i adnabod pobl eraill yn ein cymdogaeth. Wrth siarad gydag un o'r dysgwyr daethom i ddeall ein bod ni'n dwy wedi symud i Chwilog yn yr un flwyddyn ac mae hi wedi cymryd chwe blynedd ar hugain i ni gyfarfod ein gilydd! Mae'n gyfle hefyd i gyfarfod pobl sydd wedi symud i fyw yma yn fwy diweddar a gobeithio bod hyn yn eu helpu i ymgartrefu yn ein plith. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau eraill yn ystod y cyfnod cyntaf hwn, megis dwy sesiwn adolygu Mathemateg TGAU, cyflwyniad ar waith Ambiwlans Awyr Cymru, sesiwn teclynnau digidol, sesiwn ar baratoi salads, bore coffi elusennol, Chwynnu Chwilog, bwrdd dillad ysgol a sesiwn ar hel achau. Diolch i bawb sydd wedi arwain y sesiynau. Mae nifer o syniadau ar y gweill ar gyfer y tymor nesaf a rhestrir hwy ar dudalen Facebook Menter Gymunedol Chwildro. Am ragor o fanylion, cysylltwch â Delyth ar delythwyndavies@hotmail.co.uk neu 07785 595768



Yr Adran
Gydenwadol

15 Hydref 2026
Rhifyn 294

I ddarllen y cyhoeddiad digidol
Cenn@d yn llawn cliciwch isod:
www.cennad.cymru

Nid yw Undod yn Gofyn am Lai o Wirionedd

Dr Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru

Yn ôl yn rhifyn 275 o Cenn@d *(3 Mehefin 2026)* (gweler https://www.cennad.cymru/wp-content/uploads/2026/06/Cennad-275-1.pdf) *cyhoeddwyd y gyntaf o gyfres o erthyglau gan Dr Cynan Llwyd yn trafod beth yw hanfodion eciwmeniaeth yn 2026. Dyma'r ail yn y gyfres, lle mae'n dadlau nad gelyn athrawiaeth yw eciwmeniaeth. Gall fod yn ffordd ddisgybledig o gymryd athrawiaeth o ddifrif.*

I lawer o efengylwyr, mae'r gair *eciwmeniaeth* yn codi amheuon ar unwaith.

Gall swnio fel rhywbeth sy'n perthyn i fyd arall: pwyllgorau eglwysig, datganiadau cwrtais, athrawiaeth wedi'i gwanhau, a rhyw fath o undod amwys sy'n gofyn i bawb beidio â phoeni gormod am beth sy'n wir. I Gristnogion sydd wedi'u ffurfio gan yr Ysgrythur, gan bregethu, gan dröedigaeth, a chan yr alwad i 'ymdrechu dros y ffydd a roddwyd unwaith ac am byth i'r saint', mae'r amheuaeth honno'n ddealladwy.

Ac mae efengylwyr yn iawn i boeni am wirionedd. Dylem boeni am wirionedd. Os yw'r eglwys yn colli'r efengyl, does ganddi fawr ddim ar ôl i'w gynnig i'r byd ond iaith grefyddol, cyngor moesol, ac atgof am sefydliad a fu. Nid addurn ar ymylon y ffydd yw athrawiaeth. Nid hobi i bobl sy'n hoff o ddiwinyddiaeth mohoni. Athrawiaeth yw'r ffordd y mae'r eglwys yn rhoi geiriau i'r Duw sydd wedi siarad, i'r Crist sydd wedi ein hachub, i'r Ysbryd sy'n rhoi bywyd, ac i'r gobaith yr ydym wedi ein galw iddo.

Felly, mae'n werth dweud hyn yn glir: nid eciwmeniaeth ffyddlon yw eciwmeniaeth sy'n gofyn i Gristnogion esgus nad yw athrawiaeth yn bwysig.

Ond dyna hefyd pam na ddylai efengylwyr ddiystyru eciwmeniaeth yn rhy gyflym.

Nid yw eciwmeniaeth go iawn yn gofyn i eglwysi osgoi'r gwirionedd.



Mae'n gofyn iddynt geisio'r gwir gyda'i gilydd, mewn cariad. Nid yw'n ein galw i feddalu ein hargyhoeddiadau, cymylu gwahaniaethau, nac esgus bod pob anghytundeb yn ddibwys. Yn hytrach, mae'n ein gwahodd i ofyn a yw ein rhaniadau bob amser mor ffyddlon, mor angenrheidiol ac mor efengylaidd ag yr ydym yn tybio. A ydym, ar brydiau, wedi cymysgu dewrder â bod yn ymosodol, eglurder â gwawdlunio, ac argyhoeddiad ag ynysu ein hunain?

Nid yw undod yn gofyn am lai o wirionedd. Mae'n gofyn am fwy o gariad wrth inni geisio'r gwir.

Mae'r gwahaniaeth hwnnw'n bwysig.

Mae math o heddwch ffug sy'n cael ei greu drwy osgoi'r cwestiynau anodd. Gall eglwysi gynnal cyfeillgarwch arwynebol drwy gytuno'n dawel i beidio byth â sôn am fedydd, y Cymun, llywodraeth yr eglwys, awdurdod, sancteiddrwydd, doniau'r Ysbryd, neu natur iachawdwriaeth. Ond nid undod yw distawrwydd. Yn aml, dim ond cwrteisi dros dro ydyw.

Yn hwyr neu'n hwyrach, daw'r gwahaniaethau go iawn i'r wyneb. Pan ddigwydd hynny, nid y cwestiwn yw a fydd Cristnogion yn anghytuno. Wrth gwrs y byddwn. Y cwestiwn yw sut y byddwn yn anghytuno, ac a fydd ein ffordd o anghytuno yn dangos ffrwyth yr Ysbryd neu weithredoedd y cnawd.

Nid yw'r Testament Newydd yn cynnig darlun o eglwys heb wirionedd na heb wrthdaro. Mae Paul yn ceryddu athrawiaeth ffug. Mae Ioan yn rhybuddio rhag twyllwyr. Mae Jwdas yn annog Cristnogion i ymdrechu dros y ffydd. Mae Iesu ei hun yn siarad â miniogrwydd pan fo gwirionedd Duw yn cael ei wyrdroi. Nid oes achos Beiblaidd dros undod sy'n trin athrawiaeth fel rhywbeth amherthnasol neu dafladwy.

Ac eto, mae'r un Testament Newydd yn ein galw at ostyngeiddrwydd, amynedd, addfwynder, goddefgarwch a chariad. Mae'r un Paul ag sy'n amddiffyn yr efengyl mor gadarn hefyd yn erfyn ar Gristnogion i 'gadw undod yr Ysbryd yng nghwlwm tangnefedd'. Mae'r ffydd apostolaidd sy'n tynnu ffiniau hefyd yn mynnu ein bod yn anrhydeddu ein gilydd, yn goddef ein gilydd, ac yn gwrthod y balchder sy'n troi pob anghytundeb yn rheswm dros ddirmyg.

Dyma lle mae angen dychymyg efengylaidd mwy aeddfed arnom.

Nid yw pob athrawiaeth o'r un pwys.

Nid yw hynny'n golygu bod rhai gwirioneddau'n amherthnasol. Mae'n golygu bod y traddodiad Cristnogol wedi cydnabod ers canrifoedd fod rhai athrawiaethau'n sefyll wrth wraidd y ffydd mewn ffordd nad yw eraill. Mae'r Drindod, yr ymgnawdoliad, marwolaeth ac atgyfodiad Crist, iachawdwriaeth drwy ras, awdurdod yr Ysgrythur, yr alwad i sancteiddrwydd, a gobaith dychweliad Crist yn rhan o galon cyffes Gristnogol. Os collwn y rhain, nid dim ond un agwedd ar Gristnogaeth sy'n newid; mae natur y ffydd ei hun dan sylw.

Mae materion eraill yn dal i fod yn ddifrifol, ond maent wedi rhannu Cristnogion drwy'r canrifoedd sydd, serch hynny, yn cyffesu'r un Arglwydd.

Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Mae bedydd, trefn eglwysig, natur gweinidogaeth ordeiniedig, presenoldeb Crist yn y Cymun, doniau ysbrydol, patrymau addoli, a chwestiynau am awdurdod eglwysig yn faterion pwysig. Maent yn siapio bywyd eglwysi'n ddwfn. Ond ni ddylid trin pob anghytundeb yn eu cylch fel pe bai'n gosod rhywun y tu allan i deulu'r ffydd.

Ac yna mae materion eraill eto: barn ymarferol, hoffterau diwylliannol, arddulliau addoli, arferion a etifeddwyd, a thraddodiadau lleol yr ydym weithiau'n eu dyrchafu i lefel athrawiaeth am eu bod yn gyfarwydd ac yn annwyl inni.

Un o roddion cyfarfod eciwmenaidd gonest yw ei fod yn ein gorfodi i ofyn cwestiynau gwell.

Ai anghytundeb am yr efengyl ei hun yw hyn? Ai mater difrifol ond eilaidd ydyw? Neu ai rhywbeth sy'n perthyn i'n traddodiad ein hunain yr ydym wedi'i ddyrchafu'n egwyddor gyffredinol?

A ydw i wir wedi deall beth mae'r eglwys arall yn ei gredu, neu ydw i wedi etifeddu gwawdlun ohoni?

A ydw i'n amddiffyn y gwir, neu'n amddiffyn fy llwyth?

Mae gwawdlunio yn un o elynion mawr undod Cristnogol. Mae hefyd yn un o elynion mawr gwirionedd Cristnogol.

Mae'n hawdd trechu fersiwn o draddodiad arall na fyddai neb meddylgar o'r traddodiad hwnnw'n ei adnabod. Mae Catholigion yn 'addoli Mair'. 'Dim ond emosiwn sy'n bwysig' i'r Pentecostiaid. Nid yw Anglicaniaid 'yn credu dim byd'. Does gan Fedyddwyr 'ddim hanes'. Nid yw Cristnogion Diwygiedig 'yn credu mewn cenhadaeth'. Mae'r Uniongredwyr 'yn ymwneud â defodau yn unig'. 'Unigolyddion bas' yw efengylwyr.

Gall y math hwn o iaith godi gwên ymhlith ein pobl ein hunain, ond nid yw'n ein helpu i garu corff Crist. Yn fwy na hynny, yn aml iawn nid yw'n wir. Mae anghytuno'n onest yn fwy ffyddlon na chamgyfleu rhywun yn ddiog.

Mae byd o wahaniaeth rhwng dweud, 'Rwy'n deall beth rydych chi'n ei gredu, ond dyma pam rwy'n anghytuno â chi,' a dweud, 'Does dim angen imi eich deall chi oherwydd rwyf eisoes yn gwybod bod pobl fel chi yn anghywir.' Gall y cyntaf fod yn arwydd o ddifrifoldeb diwinyddol. Yn rhy aml, balchder yn gwisgo mantell athrawiaethol yw'r ail.

Dyma pam mae credoau hanesyddol yr eglwys mor werthfawr. Nid yw Credo'r Apostolion na Chredo Nicea yn ateb pob cwestiwn. Nid ydynt yn dileu gwahaniaethau enwadol, nac yn datrys pob anghydfod diwinyddol. Ond maent yn rhoi canolbwynt cyffredin inni. Maent yn ein hatgoffa, cyn ein bod yn Brotestaniaid, yn Gatholigion, yn Uniongredwyr, yn Anglicaniaid, yn Fedyddwyr, yn Fethodistiaid, yn Bentecostiaid neu'n Bresbyteriaid, rydym yn Gristnogion sy'n cyffesu'r Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân. Rydym yn cyffesu'r ymgnawdoliad, y croeshoeliad, yr atgyfodiad, yr esgyniad, y Farn, maddeuant pechodau, atgyfodiad y corff, a'r bywyd tragwyddol.

Nid 'y lefel isaf bosibl' yw'r canolbwynt hwn. Nid yw'n golygu ein bod yn cytuno i warchod y lleiaf posibl. Yn hytrach, mae'n ein helpu i weld yr hyn sydd wrth galon y ffydd, fel y gallwn roi ein hanghytundebau eraill yn eu cyd-destun priodol.

Mae angen inni gael synnwyr o gymesuredd. Hebddo, gall Cristnogion ddechrau trin pob dadl fel argyfwng a phob gwahaniaeth fel brad. Rydym yn byw mewn cyflwr parhaus o amheuaeth. Rydym yn hyfforddi ein hunain i weld bygythiadau yn gynt nag yr ydym yn gweld rhoddion. Rydym yn dod yn arbenigwyr ar fod yn wyliadwrus o'n gilydd. Ac yn y pen draw, gall hyd yn oed ein hymdrech i amddiffyn y gwir ddechrau ein hanffurfio.

Nid difaterwch yw'r dewis arall. Yr hyn sydd ei angen yw argyhoeddiad sydd hefyd yn gwrtais ac yn hael.

Nid bod yn 'neis' yw hyn. Gall bod yn neis olygu osgoi'r gwir er mwyn cadw pawb yn gyfforddus. Mae argyhoeddiad caredig yn dweud y gwir, ond yn gwneud hynny mewn cariad. Mae'n gwrando'n ofalus. Mae'n gwrthod ergydion rhad. Mae'n gwahaniaethu rhwng camgymeriad a heresi, rhwng dryswch a gwrthryfel, rhwng anghytundeb ac ewyllys drwg. Mae'n siarad yn glir, ond nid yn ddirmygus.

Nid techneg ar gyfer dadl yw hyn. Disgyblaeth ysbrydol ydyw. Er mwyn byw fel hyn, rhaid inni gredu nad gwrthwynebydd i'w drechu yn unig yw'r person sydd gyferbyn â ni, ond cymydog i'w garu. Ac os yw'r person hwnnw'n Gristion, mae'n fwy na chymydog. Mae'n frawd neu'n chwaer y bu Crist farw drosto neu drosti.

Nid yw hynny'n golygu bod pob barn sydd ganddynt yn gywir. Ond mae'n golygu na allaf eu trin â dirmyg.

Defnyddir yr ymadrodd 'uniongredded graslon' weithiau, ac ar ei orau mae'n disgrifio rhywbeth Beiblaidd, dwfn: ymrwymiad i'r gwir sy'n cael ei fyw yn null Crist.

Mae uniongredded heb ras yn mynd yn galed, yn frau ac yn hunan-amddiffynnol. Mae gras heb uniongredded yn mynd yn sentimental ac yn ddiwreiddyn. Mae angen y ddau ar yr eglwys. Mae angen ffydd sydd â chryfder a chynhesrwydd; argyhoeddiad a gostyngeiddrwydd; eglurder a dagrau.

Gall eciwmeniaeth, o'i deall yn iawn, ein hyfforddi yn y math hwn o ffydd. Mae'n ein gwahodd i eistedd gyda Christnogion y mae eu greddfau a'u traddodiadau'n wahanol i'n rhai ni a gofyn: Beth maen nhw'n ei weld nad ydw i wedi'i weld? Pa wirionedd y maen nhw'n ceisio'i warchod, hyd yn oed os ydw i'n credu eu bod wedi mynd yn rhy bell? Beth am fy nhraddodiad i sy'n dod yn fwy amlwg wrth imi wrando ar eu traddodiad nhw? Ble ydw i wedi cymysgu fy hoffterau personol ag egwyddorion Beiblaidd? Ble mae angen imi edifarhau?

Nid yw hynny'n golygu bod pob sgwrs yn gorffen mewn cytundeb. Weithiau, canlyniad deialog onest yw ein bod yn deall yn gliriach pam ein bod yn parhau i anghytuno. Ond gall hyd yn oed hynny fod yn rhodd.

Mae yna fath o anghytundeb sy'n puro. Mae'n chwalu gwawdluniau. Mae'n dyfnhau argyhoeddiad. Mae'n ein dysgu i siarad yn gywir. Mae'n ein hatgoffa nad yw'r gwir yn cael ei wasanaethu gan or-ddweud na chamgyfleu.

Nid oes angen undod ar yr eglwys sydd wedi'i adeiladu ar amwysedd. Mae angen undod sydd wedi'i adeiladu ar Grist, gwirionedd, gostyngeiddrwydd a chariad.

I efengylwyr, felly, nid yr her yw gofalu llai am athrawiaeth. Yr her yw gofalu am athrawiaeth mewn ffordd sy'n fwy tebyg i Grist. Caru'r gwir ddigon i'w geisio gydag eraill. Caru'r efengyl ddigon i'w gwahaniaethu oddi wrth ein greddfau llwythol. Caru'r eglwys ddigon i alaru dros raniadau diangen.


A charu ein cymdogion ddigon i ddangos iddynt dystiolaeth Gristnogol sydd wedi'i nodweddu nid gan gystadleuaeth ac amheuaeth, ond gan argyhoeddiad sanctaidd a chariad gweladwy.

Nid gelyn athrawiaeth yw eciwmeniaeth. Ar ei gorau, mae'n wrthodiad disgybledig i adael i athrawiaeth droi'n arf i falchder. Mae'n ffordd o ddweud bod gwirionedd yn rhy bwysig i'w geisio heb gariad, a bod cariad yn rhy bwysig i gael ei wahanu oddi wrth wirionedd.

Nid yw undod yn gofyn am lai o wirionedd. Mae'n gofyn am Gristnogion sy'n barod i geisio'r gwir gyda'i gilydd — yn amyneddgar, yn ddewr, yn ostyngedig, ac yng nghariad Crist.

Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26



Codi'r Llen 39

Ymson Morwyn Naaman

Cipiwyd fi oddi wrth fy nheulu a'm cludo i wlad ddieithr. Ches i ddim dewis. Ro'n i'n rhy ifanc i arbed fy hun rhag cam.

Dysgais yn gyflym fod fy meistr yn ddyn uchel ei barch a bod pawb yn ei edmygu. Roedd yn dal o gorffolaeth ac yn gyhyrog, ond fe wyddwn i rywbeth arall amdano. O dan ei arfwisg, y medalau a'i ddillad crand, roedd cyflwr yn cynddeiriogi ei groen. Deuai'r cosi bob nos fel morgrug yn crafangu drosto. Yn aml, byddai'n methu ei ddioddef a'r unig beth y gallai ei wneud oedd crafu nes bod y croen yn torri. Byddai'r rhyddhad wedyn yn torri drosto fel ewyn ton ar y cefnfor mawr.

Roedd y peth yn guddiedig; ni wyddai ei wraig hyd yn oed faint y broblem. Serch fy niniweidrwydd, gwelais ei boen gorfforol a phoen ei feddwl. Efallai oherwydd fy mod innau mewn gwewyr hiraeth gallwn weld gwewyr eneidiol rhywun arall. Sylweddolais fod trysorau bywyd yn ei amgylchynu, ond eto roedd yn unig.

Bûm yn dawel am gyfnod hir. Meddyliais y byddai dweud rhywbeth yn rhy beryglus. Ro'n i eisoes wedi gweld sut y gallai mentergarwch beri loes i'r rhai a feiddiai weithredu. Weithiau, roedd yn well cadw allan o bethau, dweud dim, aros yn saff.

Ond eto, oherwydd fy magwraeth, ro'n i'n gwybod am Dduw ac na fyddai'r Duw hwnnw'n anghofio amdanaf fi. Roedd siarad â Duw yn fy helpu bob bore wrth ddeffro a phob nos wrth noswylio. Felly, penderfynais y byddwn yn codi fy llais.

Soniais am Eliseus a'i ddawn i iacháu. Un frawddeg, dyna'r cyfan oedd hi. Ond newidiodd yr ychydig eiriau hynny bopeth. Fe aeth Naaman at y brenin a chael caniatâd i deithio i weld Eliseus. Yno, wedi ychydig o styfnigrwydd, yn y diwedd plygodd i lawr ar ei liniau a gofyn am help. Yn y gwyleidd-dra hwnnw darganfu fod rhywbeth mwy yn bodoli, rhywbeth mwy na meidroldeb hyd yn oed. Ar ôl iddo sylweddoli hynny'n fewnol, cafodd ei lanhau o'i anhwylder allanol.

Meddyliais droeon y gallwn fod wedi troi'n chwerw. Ro'n i wedi dioddef, roedd hynny'n sicr. Roedd fy sefyllfa yn un anodd, heb ddiwedd iddi. Fe allwn yn hawdd fod wedi dymuno drwg i Naaman a'i wraig. Ond yn y diwedd roedd codi fy llais yn gam grymus. Weithiau, mae helpu rhywun arall yn creu mwy o ddaioni nag ymladd yn ddiddiwedd yn erbyn ffawd. Mae maddeuant yn gallu rhyddhau; ydy, ond mae angen gweithredu hefyd. Nid yw ffydd heb weithredoedd yn dda i ddim.

Dyna pam rydw i eisiau codi fy llais unwaith yn rhagor heddiw – i siarad â'r merched sy'n gaeth o'ch cwmpas chi. Ie, chi!

Hoffwn i'r ferch ifanc sy'n gorfod gweithio yn hytrach na mynd i'r ysgol wybod bod ganddi ddewis. Hoffwn i'r ferch gafodd ei gwerthu i wasanaethu dynion wybod y dylai ddweud wrth rywun. Hoffwn gael siarad â'r merched sy'n gweithio heb gyflog yn y salon trin ewinedd er mwyn dweud bod ffordd wahanol o fyw yn bod. Dros y fenyw sy'n cael ei cham-drin, hoffwn weiddi'n uchel a'i chymell hithau i weiddi hefyd. A'r wraig sydd wedi'i charcharu dan glymau creulondeb, hoffwn ei siarsio i fynnu torri'n rhydd.

Nid yw gwerth neb fyth yn mynd yn llai yng ngolwg Duw. Beth bynnag eu sefyllfa, mae pob enaid byw yn werthfawr. A cofiwch chithau: pan fo llais yn codi dros gyfiawnder, yn herio caethwasiaeth a chreulondeb, anghyfiawnder a thrais, ac yn sefyll yn gryf yn wyneb enbydrwydd o unrhyw fath, mae ein Duw yn clywed.

Holi

- Dengys stori'r forwyn sut y mae Duw'n gweithio drwy bersonau heb rym na chydnabyddiaeth gymdeithasol. Ydy hi'n bosib ein bod ni'n esgeuluso pobl yn ein dyddiau ni? Os felly, pwy?
- Mae'r forwyn yn ymateb i'r sefyllfa mewn ffordd aeddfed. Ydy hyn yn ein herio wrth inni ystyried swyddogaeth maddeuant yn ein byw a'n bod ninnau?
- Drwy gymhelliad y forwyn, gwelwn Naaman yn cael ei arwain tuag at adnewyddiad. Sut gall y stori ein hannog i newid ein hymagwedd tuag at bobl o ffydd wahanol?
- Beth ddywed y stori wrthym am yr angen inni gydnabod gwasanaeth ffyddlon y rhai dienw a'r rhai sydd heb gael eu cydnabod?

Gweddi

Rho inni'r dewrder
i godi ein llais.
Gwna ni'n angerddol
dros ddangos tosturi.
Bydd yn gymhelliad
i'n gweledigaeth.
Dyro inni'r gras
i gyfeirio eraill at gariad. Amen.

Siân Meinir

BBC radio cymru S4C

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 18 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Carwyn Siddall, Llanuwchllyn

Oedfa Radio Cymru
Sul, 18 Hydref, am 12:00yp
Gwasanaeth o dan arweiniad Llinos Morris, Caernarfon

Cyhoeddiadau Radio a Theledu, 18 Hydref 2026

S4C
Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 18 Hydref
Cofio Aberfan: Nia Roberts fydd yn Aberfan, yn nodi 60 mlynedd ers un o'r digwyddiadau mwyaf trist yn hanes Cymru ac yn cofio am ymdrechion y cannoedd aeth yno i gynnig eu cymorth.

Newyddion o Myanmar ac India

Mae'r Parchg SaDo, Ysgrifennydd Cyffredinol y Congregational Church of Myanmar a chynrychiolydd ICF (International Congregational Fellowship) dros ranbarth Asia, wedi rhannu'r newyddion diweddaraf am waith yr eglwys ym Myanmar ac India, ynghyd â'r heriau sy'n wynebu'r gweinidogaethau.

Mae CCM ym Myanmar yn wynebu cyfnod anodd oherwydd effaith y rhyfel cartref a'r llifogydd diweddar. Mae prisiau reis, olew, dillad, diesel ac anghenion sylfaenol eraill wedi codi'n sylweddol. Mae hyn yn rhoi pwysau mawr ar ddarparu bwyd dyddiol ac addysg i blant Grace Children, yn ogystal â diwallu anghenion gweithwyr cenhadol.

Oherwydd llifogydd, bu'n rhaid cynnal un o'r oedfaon diweddar yn neuadd fwyta Grace Children, gan fod dŵr wedi mynd i mewn i adeilad yr eglwys. Er hynny, mae'r sefyllfa bellach yn gwella. Gofynnir am weddïau dros heddwch ym Myanmar ac am nerth a doethineb i'r eglwys wrth iddi barhau â'i gwaith.

Yn ddiweddar hefyd cynhaliwyd seminar undydd gan Gymdeithas Gristnogol Mara Yangon yn People Church, Yangon. Daeth dros gant o weinidogion ac aelodau lleyg ynghyd, gan gynnwys y Parchg SaDo. Trafodwyd pynciau'n ymwneud â phobl ifanc a phriodas Gristnogol, yn ogystal â thwf ysbrydol. Cafwyd cyfle gwerthfawr i rannu profiadau a chryfhau'r gymdeithas rhwng Cristnogion.



Prosiectau cenhadol

Mae CCM yn arbennig o bryderus am ddau brosiect adeiladu eglwys yn Okkan **a** Thauk Kyat Taw**.** Mae nifer o bobl, gan gynnwys plant, wedi dod yn Gristnogion yn y ddwy ardal, ond nid oes adeilad ar gael iddynt. Ar hyn o bryd, cynhelir oedfaon mewn cartrefi bob Sul, ond nid oes digon o le i bawb.

Mae'r prosiectau hyn wedi bod yn destun gweddi ers peth amser, ac mae CCM yn ddiolchgar am unrhyw gymorth ariannol a all ddod gan eglwysi ac unigolion. Mae gwaith efengylu wythnosol hefyd yn parhau drwy wasanaethau mewn cartrefi.

Newyddion o Maraland, India

Bu tristwch mawr wrth glywed am farwolaeth y Parchg L Mark, gŵr y Parchg Violet Lorrain Annie Mark, wyres y cenhadwr R. A. Lorrain. Roedd y Parchg Mark hefyd yn gyn-Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Gynulleidfaol India – Maraland. Cynhaliwyd ei angladd ar 17 Medi yn ei bentref brodorol, Saikao, gan Eglwys Efengylaidd Mara Land. Mae hanes Cristnogaeth ym Mara Land yn gysylltiedig â gwaith R. A. Lorrain, cenhadwr o Lundain a gyrhaeddodd yno ym mis Medi 1907. Drwy ei waith ef ac eraill, daeth Cristnogaeth i fod yn rhan ganolog o fywyd pobl Mara. Bu newidiadau a rhaniadau o fewn eglwysi Mara dros y blynyddoedd, ond erys parch a diolchgarwch am y cenhadon a ddaeth â neges Crist i'r ardal.

Gofynnir am weddïau dros deulu'r Parchg Mark ac eglwysi Maraland. Er gwaethaf yr heriau niferus, mae CCM yn parhau i dyfu trwy ras Duw**,** ac mae plant Grace Children yn gwneud yn dda.

Diolch am eich gweddïau a'ch cefnogaeth.





Barn Annibynnol

Danto

Ydych chi erioed wedi gwylio ffilmiau *Bridget Jones's Diary*? Maen nhw'n wych! (*Highly recommend*). Wel, i rywun fel fi sy'n hopless romantic, yn hopeless am ddod o hyd i gariad a'n mynd trwy fywyd ar fy liwt fy hun. Os nad ydych wedi gweld y ffilmiau, maen nhw'n dilyn trywydd merch sengl yn ei 20au/30au sy'n byw yn Llundain drwy dreialon bywyd yn ystod y cyfnod hwnnw. Treialon digon cyffredin i ni 'ferched ifanc yr oes fodern' o ganfod cariad, sefydlu gyrfa a sicrhau cydbwysedd, y cyfan i gyd ar yr un pryd. Heriau sy'n ein meddiannu weithiau gan yrru meddyliau rownd a rownd ein pennau ac yn ddigon i'n hachosi i ddanto (danto = gair hwntw am 'roi fyny').

Trwy gydol y ffilmiau, rydyn ni'n gweld Bridget (y prif gymeriad) yn rhoi tro ar rywbeth newydd ac yn methu. Yn dechrau perthynas newydd ac yn torri fyny. Mae'n bendramwnwgl o sefyllfaoedd da a gwael a does 'na ddim cysondeb rhwng y ddau. Sydd felly'n adlewyrchiad o fywyd go iawn – yn fy nhyb i.

A heb os, mae'n adlewyrchiad (ish) o'n bywydau ni fel Cristnogion a phobl yn gyffredinol. Mae'n llawn cyfnodau da a gwael (yr ups and downs). Fel rhywun sy'n parhau i gryfhau ei ffydd, dwi'n sicr yn cael cyfnodau lle dwi'n wan fy ffydd, yn meddylu llawer ac yn pendroni. Ond ar adegau eraill, dwi'n sicr ac yn llawn bwrlwm gyda'm ymddiriedaeth a'm ffydd yn gryf yn yr Arglwydd.

Wrth glywed y genhedlaeth hŷn yn sôn am grefydd yn y gorffennol, gall fod yn dorcalonnus i rywun ifanc fel fi i glywed yn ailadroddus linellau fel 'ma pethe' yn mynd lawr' a 'sneb yn becso rhagor', yn hytrach na chlywed ymadroddion fel 'Hei! Ni yma – a dyna sy'n bwysig' wrth fynd i'r cwrdd neu gyfarfod sy'n ymwneud â chrefydd/y capel. Onid felly y dywed yr emynydd i ni fod yn ddiolchgar ac addolgar 'ymhlith y dau neu dri'?

Rhan o'r Beibl rwyf wedi bod yn ei darllen yn ddiweddar yw Llythyr Iago, a dyma beth rydym wedi bod yn ei drafod yn yr ysgol Sul hefyd. Yn y fan honno, nododd fy hen wncwl Elfed, bod Iago yn cael ei gyfeirio ato fel 'epistol y gwellt' gan fod ei lythyr a'i ymadroddion yn 'syml' ac nad yw'n cario'r un pwysau diwinyddol â'r efengylau neu'r llythyrau eraill. Er hyn, dwi o'r farn bod y llythyr hwn yn eithaf di-flewyn ar dafod. Mae Iago'n dweud pethau fel ag y maent am ffafriaeth, cred, doethineb a chyfoeth.

Ond ar ddechrau'r llythyr ac o dan y pennawd 'Treialon' (Beibl.net), mae'r adnod hon: 'Frodyr a chwiorydd, pan fyddwch chi'n wynebu pob math o dreialon, ystyriwch hynny'n rheswm i fod yn llawen. Achos pan mae'ch ffydd chi'n cael ei brofi mae hynny'n meithrin y gallu i ddal ati a pheidio rhoi'r gorau iddi.' Dwi'n credu bod angen yr adnod hon yn fwy nag erioed arnom ni heddiw. Mae'r heriau sy'n codi o bob cyfeiriad yn gwanhau ein ffydd, yn gwneud i ni ailfeddwl a chwestiynu. Gyda llai a llai o rwydweithio crefyddol yn ein cymdeithas, mae angen i ni ddal gafael ar ein cred yn fwy nag erioed.

Oes, mae yna ansicrwydd. Mae yna gyfnodau tywyll. Ond drwy ddal gafael yn yr hyn yr ydym yn gwybod; fod gennym achubiaeth yn Iesu Grist, gallwn felly fynd ymlaen gyda ffydd y gallwn wneud gwahaniaeth. Bydd y capeli'n llawn unwaith eto a'n cymanfaoedd yn gorlifo. Ond mae'n rhaid i ni ddal y ffydd a gweithredu yn ôl ei air Ef. Peidiwch felly â 'danto'. Mae'r gwaith rydyn ni oll yn ei wneud yn help, a pharau â hynny sydd angen ei wneud. Yng ngeiriau Dafydd Iwan felly 'cerddwn ymlaen'.

Gwennan Evans

(Nid yw'r hyn a ysgrifennir yn yr erthyglau Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr nac ychwaith y tîm golygyddol.)

GOHEBIAETH

Rhagor am yr Ysbryd Glân



Mae erthygl Neville Evans yn codi cwestiwn pwysig ynghylch hunaniaeth a gwaith yr Ysbryd Glân, ond credaf fod ei gasgliad yn anghywir.

Nid adeg y Pentecost y cychwynnodd gwaith yr Ysbryd Glân. Mae'r Ysgrythur yn egluro bod yr Ysbryd yn bresennol adeg y greadigaeth (Genesis 1:2), yn ymwneud â chenhedlu Iesu (Luc 1:35), wedi dod ar yr Iesu adeg ei fedydd (Luc 3:21–22), ac wedi ei dywallt ar y disgyblion adeg y Pentecost (Actau 2:1–4). Yr un Ysbryd sydd ar waith drwy'r Ysgrythur gyfan.

Ond nid yw hyn yn gwneud yr ymadrodd Beiblaidd *yr Ysbryd Glân* yn ddiangen nac yn gamarweiniol. Defnyddiodd Iesu ei hun yr ymadrodd hwn dro ar ôl tro. Yn Ioan 16, soniodd am ddyfodiad yr Ysbryd Glân i argyhoeddi'r byd ynghylch pechod, cyfiawnder a barn. Trwy'r Testament Newydd, mae'r Ysbryd Glân yn cael ei gyflwyno'n gyson fel yr un sy'n dysgu, yn arwain, yn argyhoeddi, yn rhoi nerth ac yn dwyn tystiolaeth. Felly, nid dyfodiad Ysbryd newydd neu wahanol oedd ar y Pentecost. Yn hytrach tywalltiad grymus yr un Ysbryd Glân ar Eglwys Crist.

Yr hyn sy'n peri pryder yn erthygl Neville yw ei fod yn symud o'r sylw cwbl gywir fod Ysbryd Duw wedi bod yn bresennol o'r dechrau, i'r casgliad y dylid, i bob pwrpas, gael gwared ar yr enw *yr Ysbryd Glân* o iaith a hymnau Cristnogol. Nid wyf yn credu bod yr Ysgrythur yn rhoi sail inni wneud hynny. I'r gwrthwyneb, dylem fod yn ofalus iawn cyn rhoi o'r neilltu derminoleg y mae'r Ysgrythur ei hun yn ei defnyddio dro ar ôl tro.

Nid anghytundeb ynghylch geiriau yn unig yw hyn. Mae'r hyn a gredwn am yr Ysbryd Glân yn ymwneud â natur a gwaith Duw ei hun. Mae gan y rhai sy'n addysgu'n gyhoeddus, yn enwedig y rhai sydd mewn swyddi o arweinyddiaeth Gristnogol, gyfrifoldeb i ymdrin â materion o'r fath gyda gofal mawr. Mae'r Ysgrythur yn ein hatgoffa y bydd arweinwyr ysbrydol yn gorfod rhoi cyfrif i Dduw (Hebreaid 13:17).

Am y rheswm hwn, credaf fod safbwynt Neville yn haeddu cael ei ailystyried yng ngoleuni tystiolaeth gyflawn yr Ysgrythur. Dylem barchu'r datguddiad y mae Duw wedi ei roi inni ynghylch ei Ysbryd.

Len Davies, Ystradgynlais



Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS
***Ffôn:* 02920 490582**
***E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru**

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
***Ffôn:* 01766 513138**
***E-bost:* IwanLlew@aol.com**

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
***Ffôn:* 01267 232577 / 0781 751 9039**
***E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk**

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ
***Ffôn:* 01792 795888**
***E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru**

Dalier Sylw!
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Cyngor yr hydref




Cyfarfu Cyngor Undeb yr Annibynwyr yng ngwesty Llety Parc, Aberystwyth ar ddyddiau Iau a Gwener 8 a 9 Hydref. Y Cyngor yw pwyllgor gwaith yr Undeb lle mae syniadau yn cael eu gwyntyllu, gweledigaeth yn cael ei rhannu a phrosiectau yn cael eu datblygu, sy'n esgor maes o law ar weithgarwch dros deyrnas yr Arglwydd Iesu Grist. Y bwriad yw annog ein heglwysi i weithgarwch ac i dystio am y 'mwyaf mawr erioed a glywyd sôn.' Yn ystod y deuddydd bu'r pedair adran yn ddiwyd yn eu gwaith sef Adran yr Eglwysi a'u Gweinidogaeth, Adran Dinasyddiaeth, Adran Cenhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang a'r Adran Tystiolaeth. Er mwyn cael blas o'r hyn a ddigwyddodd fe roddwn grynodeb yn *Y Tyst* o'r trafodaethau yn ystod y rhifynnau nesaf.

Adran Cenhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang

Cafwyd trafodaeth gynhwysfawr a buddiol yng nghyfarfod yr Adran Cenhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang o dan gadeiryddiaeth Owain Davies. Pwysleisiwyd yr angen i symud ymlaen i weithredu'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod blaenorol. Bydd gweithgor felly'n cwrdd er mwyn penderfynu ar y ffordd ymlaen ar gyfer Gwobr Denman. Mae'r cynllun MSP4 (Mission Support Programme) a ariennir gan CWM (Council for World Mission) wedi dod i fwcwl erbyn hyn gyda lansio'r albwm *Goleuni*. Cafwyd gwybod mai'r bwriad ar gyfer cais MSP5 yw creu rhaglen gylchgrawn fisol yn trafod materion sy'n bwysig i Gristnogion. Bydd y rhaglen ar gael ar Youtube ac ar wefan yr Undeb. Soniodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol am y budd a gafwyd o ymweld â chynhadledd Ewrop CWM yn Utrecht yn ddiweddar a gweld yr hyn y mae PKN (eglwys Bresbyteraidd yr Iseldiroedd) yn ei gyflawni. Trafodwyd y byddai'n beth da bod unigolion yn cael y cyfle i drafod ymhellach gyda swyddogion PKN. Cafwyd adroddiad hefyd am waith y gweithgor fu'n edrych ar dderbyn eglwysi newydd i'r Undeb a nodwyd bod papur wedi'i lunio ynghyd â ffurflen gais a gwahoddwyd sylwadau ar y dogfennau hyn.

Cadarnhawyd bod rhifyn hydref 2026 o'r *Cofiadur* wedi'i gyhoeddi ac y bydd darlith i goffau 30 mlynedd ers marw Pennar Davies. Darlith ar Zoom fydd hon ac fe fydd y dyddiad yn cael ei gyhoeddi maes o law. Bydd y ddarlith ar gael ar wefan yr Undeb ac yn cael ei chyhoeddi yn rhifyn blwyddyn nesaf *Y Cofiadur*.



Treuliwyd rhan helaeth o'r cyfarfod yn trafod cyfrifoldebau'r adran Cenhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang a pha fodel fyddai'n fwyaf addas er mwyn i adrannau'r Cyngor weithio'n fwyaf effeithiol. Cynnig yr adran i'w drafod gan y Cyngor oedd i) edrych ar y posibilrwydd o gyfuno adrannau Cenhadaeth a Thystiolaeth a ii) ystyried bod materion Cytûn ac amlffydd i ddod yn rhan o gylch gorchwyl yr adran Cenhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang.



Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.